**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1288
Ein cyf/Our ref LW/01251/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

14 Medi 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Mehefin ynglŷn â deiseb P-06-1288 – Agor Gorsaf Gerdded ym Magwyr a Gwndy.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfarwydd iawn â gwaith Grŵp Gweithredu Rheilffyrdd Magwyr, ac mae camau ar waith i fwrw ymlaen â datblygu cynigion ar gyfer gorsaf ym Magwyr.

Roedd yr Arglwydd Burns a Chomisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yn cefnogi gorsaf ym Magwyr fel rhan o'u hargymhellion i'r Comisiwn, a gwnaethom dderbyn yr argymhellion hyn mewn egwyddor ar unwaith. Er mwyn gwneud hynny, mae Uned Gyflawni Burns wedi cael ei sefydlu er mwyn gweithredu'r argymhellion yn gyflym, ac mae'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ar gael yma: 2022-02-01 Burns Report WELSH V2-min.pdf (trc.cymru)

Mae'r uned wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth y DU i gynnal astudiaethau dichonoldeb ar gyfer y gwelliannau i gapasiti Prif Linell De Cymru a fyddai'n galluogi gorsafoedd newydd arni, ac mae gwaith bellach ar waith i arwain y penderfyniadau nesaf.

Yn fy marn i mae gwelliannau i'r rheilffyrdd yn allweddol i'r gwaith o wella ein hagenda trafnidiaeth gyhoeddus. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, nad yw'r rhan fwyaf o'n seilwaith rheilffordd – na'r cyllid ar ei gyfer – wedi cael ei ddatganoli, a Llywodraeth y DU sy'n llawn gyfrifol amdano. Byddwn yn pwyso ar Llywodraeth y DU i bwerau dros seilwaith rheilffyrdd gael eu datganoli yn llawn i Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â setliad cyllid llawn a theg.

Yn gywir,

**Lee Waters AS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.